

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin

O fis Chwefror i fis Medi

Disgrifiad o'r modiwl

Heddiw, yn fwy nag erioed, mae ystadegau'n rhan o'n bywydau. O'r cwrs rhagarweiniol allweddol hwn bydd myfyrwyr yn dysgu sut i ddefnyddio adnoddau ystadegol a dulliau meintiol sylfaenol sy'n ddefnyddiol ym maes busnes, llywodraeth, diwydiant, meddygaeth, yr economi, a'r rhan fwyaf o bynciau academaidd. Mae'r pynciau a gwmpesir yn cynnwys: crynhoi data; archwilio cydberthnasau; haprwydd a dosbarthiadau samplu; tebygolrwydd; profi damcaniaethau; ac amcangyfrif. Gan ddefnyddio data o amrywiaeth o raglenni, bydd eich myfyrwyr yn dysgu technegau ystadegol ac egwyddorion sylfaenol, yn ogystal â defnyddio meddalwedd a chyfrifiannell i ddadansoddi data. Bydd y sgiliau a gyflwynir yn ddefnyddol os byddant yn bwriadu astudio mwy o gyrsiau mathemategol. Mae'r cwrs hwn hefyd yn addas ar gyfer myfyrwyr o bynciau eraill sydd angen gwybodaeth sylfaenol am ystadegau.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd (neu gymhwyster cyfatebol) mewn maes pwnc â chynnwys ystadegol sylweddol
- diddordeb yn y gwaith o gymhwyso ystadegau i ddata a chwestiynau bywyd go iawn, mewn meithrin hyder oedolion i ddefnyddio ystadegau, ac wrth ddatblygu sgiliau dysgu ystadegol sy'n berthnasol i astudio gyda'r Brifysgol Agored.
- y gallu i ddefnyddio cyfleusterau e-ddysgu, megis:
 - gwefan y modiwl, a gwefannau eraill y Brifysgol, i lawrlwytho deunyddiau hanfodol a chael gafael ar wybodaeth arall
 - systemau'r Brifysgol er mwyn monitro cynnydd y myfyrwyr
 - E-bost a fforymau'r Brifysgol er mwyn cyfathrebu â'r myfyrwyr, tiwtoriaid a staff eraill yn anghydamseredig
 - tiwtorialau ar-lein, ynghyd â sesiynau wyneb yn wyneb, lle y bo'n briodol
 - marcio aseiniadau a gyflwynir yn electronig, a gaiff eu marcio gan diwtoriaid, ar y sgrin.

Mae'n bosibl y bydd union natur y cyfleusterau e-ddysgu yn datblygu dros gylch oes y modiwl a bydd angen i chi fod yn barod i addasu yn unol â hynny

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- profiad o addysgu pynciau ystadegol i oedolion neu fyfyrwyr o amrywiaeth eang o gefndiroedd addysgol
- profiad o esbonio allbwn a chanlyniadau ystadegol i bobl nad ydynt yn ystadegwyr
- bod yn gyfarwydd â defnyddio adnoddau rhyngweithiol yn unig ar gyfer addysgu ystadegau
- arbenigedd mewn defnyddio meddalwedd ystadegol, MINITAB yn benodol.

Gwybodaeth ychwanegol

- Gan y bydd gan fyfyrwyr ar y modiwl hwn ddewis i gyflwyno eu haseiniadau a gaiff eu marcio gan diwtoriaid (TMA) yn electronig drwy'r system eTMA, bydd gofyn i chi farcio a rhoi adborth ar y TMA a gyflwynwyd yn electronig a dychwelyd y gwaith a farciwyd fel ffeil electronig, ar y ffurf ragnodedig, i'r system eTMA. Os cewch eich gwahodd am gyfweiliad, bydd y rhan olaf yn cynnwys ymarfer marcio electronig, rhoddir rhywfaint o ganllawiau ar hyn. Bydd rhagor o wybodaeth a chyngor ar gael os cewch eich penodi i'r rôl.

Gall fod cyfleoedd i Ddarlithwyr Cyswllt ymgymryd â gwaith asesu cysylltiedig y ceir tâl amdano a byddwn yn cysylltu â chi ar wahân amdano os yw'n berthnasol.

Manylion sy'n ymwneud â'r modiwl – gallwch gael eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno aseiniadau:	1b
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	4
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	4